CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER.*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **17.05.19**

CYLCH MEITHRIN BWCLE – *BUCKLEY WELSH PLAYGROUP.*

Braf iawn oedd cael bod yn bresennol yn ystod agoriad swyddogol Cylch Chwarae Cymraeg ym Mwcle yr wythnos hon. Dengys hyn bod cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg yn yr ardal a dymunwn, fel ysgol, pob llwyddiant i'r Cylch newydd hwn.

It was wonderful to be present at the official opening of the Buckley Welsh Playgroup this week. This proves that there is a growing demand for Welsh medium education in the area, and we, as a school, wish the new Playgroup every success in the future.

GWEITHDY DRAMA *WORKSHOP.*

Fel dilyniant i fynd i weld perfformiad o Wave me Goodbye yn Theatr Clwyd yn ddiweddar, mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 5 weithdy ymarferol yn yr ysgol ddoe yng nghwmni Mirain Fflur. Bu'n brofiad arbennig o dda iddynt, a bydd disgyblion Blwyddyn 6 hefyd yn cael profi'r gweithdy hwn hefyd yn ystod yr wythnosau nesaf.

As a follow up from the performance of Wave Me Goodbye at Theatr Clwyd recently, Year 5 pupils enjoyed a practical workshop with Mirain Fflur yesterday. It was a great experience for them, and Year 6 pupils will also be participating in a similar workshop in the next few weeks.

YMWELIAD P.C.MARC JONES' *VISIT.*

Ddoe a heddiw, bu P.C. Marc Jones yma'n rhoi ei sgwrs dymhorol i ddisgyblion Blwyddyn 2,4 a 6. Thema ei sgwrs ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2 oedd Moddion/Cyffuriau, a Dieithryn neu Ffrind ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4 a Chyffuriau oedd ei thema ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 heddiw. Diolchir i P.C. Marc Jones am ddod atom y tymor hwn eto, fel bob amser.

P.C. Marc Jones visited both today and yesterday to give his termly talk to Years 2,4 and 6 pupils. The theme for Year 2 pupils was Medicines/Drugs, Stranger or Friend for Year 4 pupils and Drugs for Year 6 pupils today. P.C. Marc Jones is thanked for coming to us again this term, as always.

CLWB ROWNDERI – *ROUNDERS CLUB.*

Roedd y cyntaf yn y gyfres o sesiynau ar gyfer y Clwb Rownderi ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 a gynhaliwyd bnawn ddoe yn hynod o boblogaidd. Bydd yn parhau am yr wythnosau nesaf bob pnawn Iau os bydd y tywydd yn ffafriol.

The first session of the After school rounders club proved to be very popular with the Years 5 and 6 pupils yesterday afternoon. It will continue to be held every Thursday afternoon for the next few weeks if the weather is favourable.

WYTHNOS CYMRU CŴL *WEEK.*

Mae cryn edrych ymlaen yma at Wythnos Cymru Cŵl a fydd yn digwydd bob dydd yr wythnos nesaf. Mae amrywiaeth o weithgareddau diddorol a byrlymus wedi'u cynllunio ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol. Mawr hyderir y bydd pob disgybl yn elwa o fod yn ymwneud â'r gweithgareddau amrywiol, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe'ch cyfeirir yn ôl at y rhaglen o weithgareddau a dderbynioch yn ddiweddar er mwyn eich hatgoffa am y math o weithgareddau a drefnwyd.

Fe'ch hatgoffir hefyd bod yna docynnau ar ôl ar gyfer y noson gymdeithasol yng nghwmni'r Welsh Whisperer nos Fercher nesaf, Mai 22ain am 6.30 p.m. Edrychir ymlaen at eich cwmni ar y noson honno.

Everyone is looking forward to the Cymru Cŵl activities which will be held every day next week. A variety of interesting and lively activities have been planned for all the school's pupils. It is sincerely hoped that every child will benefit from these various activities through the medium of Welsh. Please refer to the copy of the timetable of events sent out to you recently to remind you of the list of activities organised for the pupils.

You are reminded that there are tickets left for the social evening with the Welsh Whisperer next Wednesday evening, May 22nd. at 6.30 p.m. We shall look forward to your company at this event.

ARIAN CINIO – *DINNER MONEY.*

Fe'ch hatgoffir i sicrhau fod pawb wedi talu pob dyled am arian cinio cyn y gwyliau hanner tymor os gwelwch yn dda, rhag i ni orfod trosglwyddo unrhyw ddyled ymlaen i'r Awdurdod lleol.

You are reminded to ensure that everyone pays off any dinner money debts before the half term holiday please, in order to prevent us from having to transfer any outstanding debts on the local Authority.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD *NATIONAL EISTEDDFOD.*

Llongyfarchiadau calonnog i Elis am ddod yn drydydd am Waith Tecstiliau 2D ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd. Bydd ei waith i'w weld yn yr arddangosfa Gelf a Chrefft yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Many congratulations to Elis for being awarded third prize for 2D Textile work for Year 2 and younger pupils at the Urdd National Eisteddfod in Cardiff Bay. His work will be displayed in the Arts and Crafts exhibition during the Eisteddfod week.

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

20-24.05.19 Wythnos Cymru Cŵl *Week.*

22.05.19 Noson deuluol gyda'r Welsh Whisperer – *An evening for the family with the Welsh Whisperer.*

24.05.19 Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*

17&28.05.19 Naw eitem yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd – *Nine items represent school at the Urdd National Eisteddfod in Cardiff Bay.*

03.06.19 Ysgol yn ail agor wedi'r gwyliau hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.*

BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF/*NEXT WEEK'S MENU*

WYTHNOS/*WEEK* 1